



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

30 Hydref 2018

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Cynnwys

1	Rhagair	1
2	Cynlluniau ac opsiynau'r amcangyfrif	3
3	Amcangyfrif ariannol a sylwadau	13
4	Effaith ar y gronfa wrth gefn	18
5	Gweithredu cadarn a phriodol	19

1 Rhagair

- 1.1 Paratowyd yr Amcangyfrif hwn yn unol â gofynion statudol er mwyn sicrhau adnoddau digonol i gyflawni rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg yn 2019-20.
- 1.2 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, corff annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.
- 1.3 Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:
 - Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
 - Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny
- 1.4 Cyflwynir yr Amcangyfrif hwn pan fo deilydd presennol swydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyrraedd diwedd cyfnod o saith mlynedd yn y rôl (ar 31 Mawrth 2019). Hefyd yn sgil ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru a datganiad Gweinidogol ar lawr y Cynulliad (5 Mehefin 2018) arfaethir cyflwyno Bil a fydd yn sefydlu Comisiwn y Gymraeg. Fel rhan o'i datganiad dywedodd y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y Gymraeg bod *"Rhaid i ni ddarbwylllo mwy o arweinwyr byd busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac yn y gymdeithas sifil – boed yn siaradwyr Cymraeg neu beidio – i weithredu o blaid y Gymraeg neu mewn modd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg"*.
- 1.5 Mae'n glir o'r datganiad mai polisi Llywodraeth Cymru yw blaenoriaethu rhagor o brosiectau hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Amcangyfrif hwn yn ymateb i hynny drwy gynnwys opsiynau i'r Llywodraeth roi rhagor o gyllid i'w ddefnyddio gan Gomisiynydd a benodir o'r newydd o 1 Ebrill 2019 ymlaen.
- 1.6 Tra bydd gwaith 2019-20 yn digwydd ar gyfnod sy'n newid mae hefyd yn wir fod swyddogaethau a dyletswyddau presennol Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ac amlhau e.e. dwyn y sector iechyd yn ddarostyngedig i drefn safonau'r Gymraeg. Mae esblygiad y drefn gosod a gorfodi safonau yn golygu bod natur y gwaith gofynnol yn gorfod addasu. Dylid rhoi rhagor o bwyslais ar hwyluso cydymffurfiaeth mewn rhai meysydd allweddol. Am nifer o resymau felly mae Ebrill 2019 yn bwynt amserol i ymgymryd â phrosiectau newydd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnwys cynigion penodol at y pwrpas hwnnw.
- 1.7 Mae'r Amcangyfrif yn osgoi gor-drafod y toriadau a gafwyd i gyllideb Comisiynydd y Gymraeg dros y blynyddoedd gynt. Tra bo gan y sefydliad record o weithredu'n dda, effeithiol ac effeithlon, mae effaith yr angen i ymateb i leihad yng nghyllideb y sefydliad a gallu'r sefydliad i fuddsoddi yn natblygiad yr is adeiledd bellach wedi amlygu rhai risgiau.
- 1.8 Mae'n angenrheidiol cael swm untro i ddatblygu gallu technoleg gwybodaeth y Comisiynydd tu hwnt i gynnal y systemau ar lefel sylfaenol a sicrhau eu diogelwch. Byddai'r buddsoddiad yn gwella effeithlonrwydd a rhyddhau amser swyddogion i gyflawni mwy gyda llai o egni. Byddai hyn hefyd yn lleddfu risgiau gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig ag ymosodiadau seibr.

- 1.9 Yn yr un modd erydwyd lefelau staffio i 90% mewn cymhariaeth â strwythur wedi ei boblogi'n llawn. Mae'n gynyddol annod cyflawni swyddogaethau a dyletswyddau'r sefydliad pan nad yw'r adnoddau llawn yn eu lle.
- 1.10 Mae'r Amcangyfrif hwn yn seiliedig ar gynllun strategol tair blynedd a blaenoriaethau penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Comisiynydd yn paratoi cynllun gweithredol manwl yn dweud sut caiff adnoddau eu defnyddio a cheir crynodeb o'r blaenoriaethau yn yr Adroddiad Blynnyddol.
- 1.11 Wrth gyflwyno'r Amcangyfrif mae Comisiynydd y Gymraeg yn dymuno pwysleisio ymrwymiad y sefydliad i barhau i wneud ei ran yn y gwaith o wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

2 Cynlluniau ac opsiynau'r amcangyfrif

2.1 Mae'r Amcangyfrif hwn yn cyflwyno tri opsiwn sydd wedi eu manylu yn adran 2 y ddogfen. Mae'r dadansoddiad ariannol yn adran 3 wedi ei baratoi ar sail Cynllun A sef yr opsiwn sydd yn cael ei ffafrio gan y Comisiynydd a'r Tîm Rheoli.

2.2 Gellir crynhoi'r tri opsiwn fel a ganlyn:

Cynllun A Cyllid ychwanegol ar brosiectau a chyflogi 47 o swyddogion

Cynllun B Cyllid ychwanegol ar brosiectau

Cynllun C Cyllid i barhau i weithredu fel yn flaenorol

2.3 Dadansoddir prif elfennau costau'r cynlluniau hyn ar gyfer 2019-20 yn y tabl isod:

	Cynllun A	Cynllun B	Cynllun C
	£000	£000	£000
Cyflogaeth (ar sail y tybiaethau presennol)	2,483	2,240	2,240
Pensiwn (effaith gwerthusiad ar gyfraniad y cyflogwr)	131	117	117
Costau Craidd i redeg y sefydliad	691	691	691
Dibrisiant ar asedau sefydlog	52	52	52
Rhaglenni a Phrosiectau	468	468	140
CYFANSWM GWARIANT	3,825	3,568	3,240
Cyllido presennol gan Lywodraeth Cymru	(3,051)	(3,051)	(3,051)
Cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru	(747)	(490)	(117)
GORWARIANT	27	27	72

2.4 Ar gyfer y tair blynedd o 2016-17 hyd 2018-19 mae Comisiynydd y Gymraeg wedi derbyn cyllideb sefydlog o £3,051,000 gan Weinidogion Cymru. Er bod hyn wedi rhoi elfen o sicrwydd i'r Comisiynydd i allu cynllunio dros y tymor canolig, mae cyllido ar y lefel yma wedi rhoi cyfyngiadau ar allu'r Comisiynydd i weithredu ei Chynllun Strategol yn llawn.

2.5 Mae gan y Comisiynydd yr hawl i gyflogi 47 swyddog cywerth y pen. Dros y tair blynedd diwethaf mae nifer o swyddi neu ran o swyddi wedi eu gadael yn wag yn y strwythur, oherwydd nid yw cyflogi 47 o swyddogion wedi bod yn fforddiadwy. Ar gyfartaledd cyflogwyd 44.4 yn 2016-17, 45.3 ym 2017-18 ac erbyn 31/03/2019 y rhagolwg yw bydd 42.6 swyddog cyfwerth y pen yn gyflogedig os na fydd cyllid ychwanegol ar gael.

- 2.6 Oherwydd proffil oedran y gweithlu mae'n arferol cael sefyllfa lle bo nifer o swyddogion y Comisiynydd ar gyfnodau absenoldeb mamolaeth neu riant ym mhob blwyddyn. Oherwydd telerau ac amodau cyflogeion, ar gyfartaledd mae cyflogi un swyddog am gyfnod o 12 mis yn ystod yr absenoldeb yn gost ychwanegol i'r sefydliad o tua £26,000. Realiti'r sefyllfa yw bod 3 swyddog ar gyfartaledd wedi bod yn absennol yn y blynyddoedd diweddar. Ers 1 Ebrill 2018 nid yw'r Comisiynydd wedi cyflogi swyddog o'r newydd dros gyfnod mamolaeth i lenwi'r bwlch oherwydd nid yw wedi bod yn fforddiadwy. Bydd gadael y swyddi yn wag yn erydu'r adnoddau tu hwnt i 42.6 cywerth y pen a chael effaith pellach ar allu timoedd y sefydliad i weithredu.
- 2.7 Mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y cynnydd i gyfraniadau pensiwn, yn dilyn canfyddiadau gwerthusiad Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, hysbyswyd i adrannau a sefydliadau cyhoeddus, mewn llythyr dyddiedig 07/09/2018 gan Swyddfa'r Cabinet. Mae pob cynllun yn yr Amcangyfrif hwn y cynnwys cais am gyllid i dalu am gost ychwanegol, fel nodir yn 2.3 uchod, ni ellir ei osgoi ac sydd tu hwnt i reolaeth y Comisiynydd.
- 2.8 Dros y blynyddoedd diwethaf mae ymdrechion parhaus wedi bod i reoli costau craidd rhedeg y sefydliad. Blaenoriaeth y Comisiynydd yw targedu gwariant er mwyn cadw'r sefydliad yn ddiogel ac yn gyfredol o ran TG a galluogi'r sefydliad i weithredu drwy ddarparu adnoddau sylfaenol. Nid oes buddsoddiad sylweddol wedi bod i gyfleusterau ac adnoddau'r swyddfa a'r isadeiledd technoleg gwybodaeth er mwyn gwella gallu'r swyddogion i weithredu'n fwy effeithiol.
- 2.9 Gyda'r gyllideb bresennol, gwariant ar raglenni sylfaenol yn unig sydd yn gynladwy. Mae'r Comisiynydd yn monitro gwariant a'r rhagolwg am y flwyddyn gyfan yn fisol a lle mae cyfleodd yn codi, oherwydd arbedion yng nghostau cyflogaeth neu gostau craidd, caiff gwariant ei gymeradwyo ar brosiectau pwrpasol.

Rhagolwg cyllideb fewnol 2018-19 : £3,218,000

2.10 Nodir isod y gofynion cyllidol ar gyfer 2018-19 ar gyfer y prif categorïau gwariant fel a ganlyn:

- Costau cyflogi swyddogion : £2,261,000
- Costau gweinyddu craidd rhedeg y sefydliad : £717,000
- Dibrisiant asedau sefydlog : £47,000
- Rhaglenni i gyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredol : £193,000

Defnydd strategol o'r gronfa wrth gefn

- 2.11 Mae'r Comisiynydd yn parhau i gynllunio gwariant a gwneud defnydd strategol o'r gronfa wrth gefn er mwyn cynnal amrediad gwaith y sefydliad. Nid yw cyllideb o £3,051,000 yn ddigonol i gynnal gwariant gwaelodol y sefydliad, Mae erydiad o'r gronfa wrth gefn wedi bod yn rhan o gynlluniau strategol y Comisiynydd ers dwy flynedd.
- 2.12 Effaith y defnydd pwrpasol yma oedd gorwariant o £198,000 ar gyfer 2017-18 a lleihad lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn i £374,000 ar ddechrau 2018-19. Mae'r cynlluniau ar gyfer 2018-19 yn rhagweld gorwariant o £167,000 sydd yn lleihau lefel y gronfa wrth gefn i £238,000 ar ddechrau blwyddyn ariannol 2019-20.
- 2.13 Mae'r Comisiynydd wedi datgan, fel nodir ym mharagraffau 4.3 a 4.4 ers nifer o flynyddoedd ei bod yn ystyried mai lefel cynladwy'r gronfa wrth gefn yw, tua £250,000.
- 2.14 Mae opsiynau Cynllun A a Chynllun B, sydd yn gwneud cais am gyllid ychwanegol, yn cynnal lefel gronfa wrth gefn o £238,000, sydd yn cael ei ystyried yn gynladwy.
- 2.15 Ar y llaw arall mae opsiwn Cynllun C yn tybio bod lefel cyllido'r sefydliad yn gyson â'r blynyddoedd diweddar heb law am gyllid i ariannu'r cynnydd i gostau pensiwn. Er hyn, effaith parhad y gorwariant dros y tymor canolig yw erydiad pellach yn y gronfa wrth gefn, fel nodir yn y tabl isod.

	2018-19	2019-20	2020-21
	£000	£000	£000
Ar ddechrau'r cyfnod	374	238	193
Tanwariant / (Gorwariant) yn y cyfnod	(167)	(72)	(147)
Dibrisiant asedau sefydlog 31/03/2017	31	27	17
Ar ddiwedd y cyfnod	238	193	63

- 2.16 Mae hyn yn golygu bydd lefel y gronfa wrth gefn bron i £200,000 yn llai na'r lefel cynladwy erbyn 31 Mawrth 2021. Byddai hyn yn peri risg i sefyllfa ariannol y Comisiynydd pe byddai gwariant annisgwyl yn codi neu achos llys neu dribiwnlys angen ei amddiffyn.

Cynllun A

2.17 Fel nodir yn y rhagair ac yn 2.1 uchod mae'r Comisiynydd yn gwneud cais am gyllid ychwanegol, gellir dadansoddi'r cais fel a ganlyn:

	2019-20	Parhaus
	£	£
Cyllido Blaenoriaethau Strategol	521,000	297,000
Cyfraniadau Pensiwn	131,000	135,000
Rhedeg y sefydliad	95,000	85,000
	<hr/>	<hr/>
	747,000	517,000

- Cyflogi strwythur llawr o swyddogion a chyflawni rhaglenni ychwanegol i wireddu amcanion llawn y Cynllun Strategol (gweler 2.18 i 2.22)
 - Rhedeg y sefydliad drwy wariant ar gostau craidd, buddsoddiad darbodus i'r isadeiledd TG a pharhau a phrosiectau sylfaenol (gweler 2.23 i 2.29)
- 2.18 Gwneir cais am gyllid ar gyfer rhai blaenoriaethau yng Nghynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r rhaglenni hyn yn rhagweld gwariant o £278,000 ar gyfer 2019-20. Amlinellir tri darn gwaith allweddol isod gan fanylu ar yr amcanion a thraweffaith.

Cyllido Blaenoriaethau Strategol

Amcan 3 Blaenoriaeth 2

Hybu ymdrechion sefydliadau i hunanreoleiddio'n effeithiol a hwyluso'r gwaith o rannu llwyddiant ac arloesi

Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg

- hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol
- sicrhau bod niferoedd cynyddol yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg
- defnyddio'r gweithlu a thechnoleg mewn dulliau effeithlon ac arloesol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn gyson **£147,000**

Drwy gyfuniad o ymchwil, digwyddiadau, sefydlu gwaelodlin a rhannu datrysiadau, cyswllt agos a chadarnhaol â sefydliadau, a chynhyrchu deunyddiau canllaw ac arferion llwyddiannus, byddai swyddogion yn cefnogi sefydliadau i:

- lunio a gweithredu strategaethau hybu'r Gymraeg;
- deall, mesur a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys ymgyrch cyhoeddusrwydd genedlaethol; a
- sicrhau bod sefydliadau'n cynllunio'r gweithlu'n effeithiol, a sicrhau bod datrysiadau technegol ar gyfer hwyluso darparu gwasanaethau'n galluogi defnyddio'r Gymraeg.

I gefnogi'r prosiect, byddwn yn defnyddio datrysiadau TG i awtomeiddio gwaith monitro, fel bod swyddogion yn gallu canolbwyntio mwy ar gyswllt cefnogol â sefydliadau.

Strategaethau Hybu

- Bod gan bob sefydliad perthnasol strategaeth hybu'r Gymraeg sy'n nodi
 - targed uchelgeisiol ar gyfer cynnal neu gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg;
 - camau gweithredu pendant ar gyfer cyrraedd y targed;
 - trefniadau digonol ar gyfer monitro'r camau gweithredu a chasglu data yn erbyn y targed;
 - trefniadau atebolrwydd clir.
- Bod sefydliadau'n gweithredu'r camau a nodir yn y strategaeth yn barhaus, ac yn defnyddio'r dulliau gorau i fonitro cynnydd
- Bod sefydliadau'n diweddarau'r strategaethau ac unrhyw gynlluniau gweithredu i adlewyrchu gwelliannau a ffyrdd newydd o weithio

Cynyddu Defnydd

- Bod sefydliadau'n casglu gwybodaeth am y lefel o ddefnydd o wasanaethau Cymraeg
- Bod sefydliadau'n deall y rhesymau dros benderfyniadau siaradwyr Cymraeg o ran dewis iaith, a dulliau sy'n llwyddo i gynyddu defnydd
- Bod sefydliadau'n hyrwyddo defnyddio'u gwasanaethau yn Gymraeg
- Bod sefydliadau'n dylunio'u holl wasanaethau er mwyn hwyluso defnyddio'r gwasanaethau yn Gymraeg
- Bod y cyhoedd yn teimlo bod gwasanaethau Cymraeg cystal â gwasanaethau Saesneg o ran argaeledd ac ansawdd; ac felly'n dewis eu defnyddio

Gweithlu a Thechnoleg

- Bod sefydliadau'n asesu'r gofynion sgiliau Cymraeg yn gywir wrth recriwtio, ac yn llwyddo i ddenu niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg, fel eu bod yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg yn gyson a dibynadwy, gan arwain at gynyddu ymddiriedaeth defnyddwyr
- yn casglu gwybodaeth ddibynadwy ynghylch sgiliau Cymraeg eu staff
- yn meithrin sgiliau Cymraeg eu gweithlu, a bod cefnogaeth addas iddynt wneud hyn
- Bod niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg cymwys ar gael i ddiwallu anghenion sefydliadau
- Bod sefydliadau'n defnyddio dulliau effeithlon ac arloesol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys trefnu'r gweithlu'n effeithiol, cydweithio â sefydliadau eraill, a defnyddio technoleg
- Bod datblygiadau technegol i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu'n hwyluso, yn hytrach nag yn rhwystro, darparu gwasanaethau Cymraeg

Amcan 4 Blaenoriaeth 3

Cynnig cefnogaeth ymarferol i fusnesau ac elusennau ar ddefnyddio'r Gymraeg

Marc Ansawdd Cynllun Hybu'r Gymraeg

- cyflwyno Marc Ansawdd fel cydnabyddiaeth am weithredu Cynllun Hybu'r Gymraeg ar gyfer cwmnïau preifat ac elusennau
- sefydlu trefn monitro cyrhaeddiad ac annog gwelliant parhaus
- buddsoddi mewn cynllun marchnata i godi ymwybyddiaeth am y cynllun er mwyn denu rhagor o fusnesau ac elusennau i ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r Cynllun Hybu
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y Cynllun Hybu fel ffordd o ddangos ble gallant ddefnyddio'r Gymraeg £107,000

Deilliannau

Hwyluso

- Galluogi'r cyhoedd i wybod a dewis defnyddio'r Gymraeg gyda busnesau ac elusennau sydd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg

Partneriaeth

- Cydnabod ymdrechion dros 600 o gwmnïau ac elusennau sydd eisoes wedi ymrwymo i Gynllun Hybu Comisiynydd y Gymraeg

Perfformiad

- Cynyddu nifer y cwmnïau ac elusennau sy'n ymrwymo o'u gwirfodd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy Gynllun Hybu Comisiynydd y Gymraeg

Cynyddu Defnydd

- Bod cwmnïau ac elusennau'n hyrwyddo defnyddio'u gwasanaethau yn Gymraeg
- Bod cwmnïau ac elusennau'n dylunio'u holl wasanaethau er mwyn hwyluso defnyddio'r gwasanaethau yn Gymraeg drwy gyfrwng Marc Ansawdd
- Bod y cyhoedd yn teimlo bod gwasanaethau Cymraeg cystal â gwasanaethau Saesneg o ran argaeledd ac ansawdd, ac felly'n dewis eu defnyddio

Amcan 4 Blaenoriaeth 4

Darparu cyngor i sefydliadau ac eraill am faterion yn ymwneud ag isadeiledd y Gymraeg

Cynnig cyngor arbenigol ac annibynnol am ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru

Ymchwil Mapio Digidol

- adnabod pa haenau o ddata OS MasterMap y mae'n flaenoriaeth gan sefydliadau Cymru eu derbyn yn Gymraeg
- adnabod pa adnodd fyddai ei angen er mwyn sicrhau hyn
- adnabod pa weithdrefnau ac adnoddau fyddai angen eu gosod mewn lle er mwyn sicrhau bod y data yn cael ei gynnal a'i ddiweddarau
- adnabod potensial technoleg iaith er mwyn hwyluso a gwireddu'r camau gwaith uchod

£20,000

Nid yw isadeiledd mapio digidol yn caniatáu i sefydliadau gydymffurfio â gofynion y safonau ar hyn o bryd. Mae'r Comisiynydd yn derbyn cwynion gan y cyhoedd a heriau gan sefydliadau o ganlyniad i'r diffyg hwn. Dros yr haf cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet ei bwriad i gyhoeddi rhannau allweddol o'r ffynhonnell fanwl ac awdurdodol o ddata mapio Prydain, OS MasterMap, o dan drwydded agored i fusnesau a'r cyhoedd. Mae hyn yn gam allweddol tuag at wireddu'r weledigaeth o sicrhau isadeiledd geogofodol agored i'r Deyrnas Unedig a honnir y bydd yn rhoi hwb o £130m y flwyddyn i'r economi. Mae'n amserol felly bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud er mwyn canfod pa gamau fyddai'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff sefydliadau a busnesau yng Nghymru elwa'n llawn ar y datblygiad hwn.

Deilliannau

Technoleg

- Sbarduno twf defnydd iaith mewn technoleg newyddsy'n ei gwneud yn haws i sefydliadau eraill weithredu'n fwy cost effeithiol wrth geisio cyflawni y gofynion sydd arnynt

Canfyddiadau Ymchwilio

- Dangos ble mae angen gweithredu

Is-adeiledd

- Cryfhau is adeiledd y Gymraeg a galluogi sefydliadau i gydymffurfio gyda dyletswyddau iaith

Cyflogi swyddogion : £243,000 a Phensiwn : £131,000

- 2.19 Er mwyn sicrhau bod yr adnoddau mewn lle i gyflawni swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd dylid parhau gyda'r strwythur staffio sydd wedi bod mewn bodolaeth ers 2015 ond sicrhau bod 47 swydd cywerth y pen yn gyflogedig.
- 2.20 Trwy gyflogi swyddogion i lenwi bylchau yn y strwythur ar gytundebau parhaol mae angen cynnydd parhaus i'r gyllideb. Mae hyn yn gost ychwanegol o £243,000 ar gyfer 2019-20, swm sydd yn codi i £297,000 ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- 2.21 Effaith hyn byddai peidio â gadael cywerth â 4.4 swydd yn wag neu rannol wag sydd yn cynrychioli 10% o weithlu'r sefydliad. Hefyd byddai modd sicrhau na fyddai erydiad dros dro yng ngweithlu'r Comisiynydd wrth i swyddogion cael cyfnodau absenoldeb rhiant neu famolaeth.
- 2.22 Traweffaith newid i gyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 21% i 28% ar gyfartaledd, yn dilyn gwerthusiad y cynllun pensiwn, yw cynyddu costau pensiynau ar gyfer Cynllun A £131,000 yn 2019-20 a chynnydd o £135,000 yn 2020-21.

Cyllid i redeg y sefydliad

Rhaglenni a Phrosiectau Safonol : £40,000

- 2.23 Trwy gyfrwng ei chynlluniau gweithredol ceisiodd y Comisiynydd sicrhau'r deiliant mwyaf o'r adnoddau a gwariant ar raglenni sylfaenol o £140,000 sydd yn £40,000 yn ychwanegol i'r gwaelodlin sydd yn fforddiadwy o fewn y gyllideb bresennol. Ceir dadansoddiad o'r gwariant fesul amcan strategol ym mharagraff 2.42.

Datblygu a gwella'r isadeiledd a systemau TG : £50,000

- 2.24 Dyhead y Comisiynydd byddai gallu buddsoddi mewn systemau cyfoes ac arloesol TG er mwyn trawsnewid isadeiledd a meddalwedd y sefydliad. Gyda'r dechnoleg ddiweddaraf ar gael i'r sefydliad a'i swyddogion byddai hyn yn caniatáu newid dulliau gweithio er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y sefydliad. Amcangyfrifir gallai'r buddsoddiad hyn fod tua £250,000.
- 2.25 Yng nghyd-destun prinder arian cyhoeddus a'r cyfnod o newid sydd yn wynebu'r sefydliad dros y blynyddoedd nesaf gyda Bil y Gymraeg arfaethedig, cydnabyddir bod angen ystyried amseriad buddsoddiad sylweddol yn y cyd-destun hwn.
- 2.26 Mae'r Comisiynydd felly yn gwneud cais am fuddsoddiad darbodus o £50,000 er mwyn uwchraddio'r isadeiledd, y systemau gweithredol a'r system rheoli gwybodaeth bresennol i'r fersiynau mwyaf cyfredol.
- 2.27 Pwrpas a thraweffaith y buddsoddiad yw bod isadeiledd systemau a meddalwedd y sefydliad yn gyfredol, bod y sefydliad yn meddu ar lefel uchel o gynnal, cadw a chefnogaeth; ac yn gallu rheoli risgiau a bygythiadau i lefel isel.
- 2.28 Heb y buddsoddiad hwn byddai'r systemau cyfredol yn heneiddio ac ni fyddai gan y Comisiynydd sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnal. Byddai hyn yn rhoi'r sefydliad mewn sefyllfa o wynebu risg annerbyniol.

Costau Craidd rhedeg y sefydliad

2.29 Drwy'r costau craidd, sicrhau bod buddsoddiad yn adnoddau'r swyddfeydd ac isadeiledd TG y sefydliad er mwyn sicrhau nad yw'r adnoddau hyn y dirywio dros amser. Bydd hyn yn lleihau risg i'r sefydliad gan warantu bod yr adnoddau a'r isadeiledd yn aros yn gyfredol ac yn parhau i wasanaethu'r sefydliadau a'i randdeiliaid.

Crynodeb effaith Cynllun A

2.30 Sgil effaith y penderfyniadau hyn (gweler hefyd adran 4) yw bod y gwariant a nodir yn y cynlluniau ariannol ar gyfer 2019-20 yng Nghynllun A uchod ac yn y tabl yn 3.1 yn defnyddio ac yn rhagweld cynnal y gronfa wrth gefn ar lefel o £238,000 dros y tymor canolog (gweler paragraff 4.2).

2.31 Heb y cyllid ychwanegol nid yw Cynllun A yn fforddiadwy. Mae'r ffaith bydd y gronfa yn cael ei chynnal ar y lefel ystyrir yn ddarbodus yn cadarnhau'r angen am gynnydd i'r gyllideb

Cynllun B

2.32 Mae opsiwn Cynllun B yn debyg i Gynllun A ag eithrio tybiaeth na fydd modd cyflogi 47 o swyddogion cywerth y pen a llenwi'r bylchau yn y strwythur. Mae'r tybiaethau mewn perthynas â chyflogaeth yn gyson â Chynllun C.

2.33 Teimlir yn gryf bod angen cyllid ychwanegol i gyllido rhaglenni gwaith sy'n rhan o flaenoriaethau strategol Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys hybu cynyddu defnydd a gwaith rheoleiddio. Mae'r rhaglenni hyn hefyd yn cefnogi gweithrediadau strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru.

2.34 Mae opsiwn Cynllun B yn gwneud cais am gyllid ychwanegol o £490,000 ar gyfer 2019-20 er mwyn buddsoddi yn y cynlluniau canlynol:

- Prosiectau ychwanegol - gweler 2.18
- Cyfraniadau pensiwn – gweler 2.39
- Prosiectau sylfaenol a TG – gweler 2.23 i 2.28
- Costau craidd rhedeg y sefydliad - gweler 2.29

2.35 Sgil effaith Cynllun B yw cynnal lefel gronfa wrth gefn o £238,000.

Cynllun C

2.36 Mae'r cynllun hwn yn parhau i weithredu gyda lefel o gyflogaeth, costau rhedeg y sefydliad a rhaglenni sylfaenol tebyg i'r sefyllfa bresennol. Tybir derbyn cyllid o £3,168,000, cynnydd sydd yn cyfateb â'r newid i gyfraniadau pensiwn.

2.37 Canlyniad Cynllun C yw bod y sefydliad mewn sefyllfa argyfyngus erbyn diwedd 2020-21 fel nodir yn 2.15. Mae pob elfen o wariant wedi ei adolygu'n fanwl ac arbedion wedi eu gwneud lle bo modd. Er gwaetha'r ymdrechion hyn, dan y cynllun hwn mae'n anorfod bydd cyfnod o orwariant yn parhau gyda'r gronfa wrth gefn yn cael ei herydu'n bellach ac i lefel anghynladwy.

- 2.38 Dim newid i'r nifer o swyddogion parhaol, gydag unrhyw gytundebau cyfnod penodol yn dod i ben ar 31/03/2019. Bydd hyn yn lleihau nifer y swyddogion i 42.6 cywerth y pen sydd yn 10% yn llai nag adnoddau strwythur llawn y sefydliad.
- 2.39 Er hyn bydd cynnydd o £117,000 i gostau cyflogaeth yn 2019-20 yn sgil gwerthusiad y cynllun pensiwn.
- 2.40 Pe byddai swyddog â'r hawl i absenoldeb statudol rhiant neu famolaeth ni fyddai modd llenwi'r swyddi hyn felly byddai erydiad dros dro yn adnoddau'r sefydliad. Bydd lleihad o'r maint hyn yn cael effaith andwyol anochel i allu'r sefydliad i gyflawni.
- 2.41 Byddai rheolaeth lem o gostau craidd yn ariannu gofynion hanfodol i redeg y sefydliad yn seiliedig ar ymagwedd o oddef elfen o risg.
- 2.42 Cyfyngu'r gyllideb ar gael ar gyfer rhaglenni a phrosiectau i'r prosiectau sylfaenol yn unig. Yr arian yma sy'n cael ei ddefnyddio i gyllido llawer o waith rhagweithiol y Comisiynydd, megis gwaith ymchwil; arolygon annibynnol; ymgyrchoedd hybu a hwyluso a phresenoldeb yn y sioeau. Mae'r gwariant wedi ei rannu rhwng amcanion Cynllun Strategol 2018-21 fel a ganlyn:

Amcan Strategol	£
Amcan 1. Dylanwadu ar bolisi	20,000
Amcan 2. Ehangu hawlio pobl i ddefnyddio'r Gymraeg	17,000
Amcan 3. Sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau	38,000
Amcan 4. Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y sectorau anstatudol	24,000
Gweithredu a Galluogi	41,000
CYFANSWM	140,000

Casgliad

- 2.43 Mae'r Comisiynydd yn argymhell yn gryf y dylid derbyn Cynllun A er mwyn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol mewn lle wrth gyflogi'r swyddogion, gweithredu'r strategaeth a chyflawni'n briodol y swyddogaethau sy'n ganolog i waith y sefydliad ac sy'n ofynnol yn unol â Mesur y Gymraeg a pholisi'r Llywodraeth.
- 2.44 Canlyniad gweithredu gyda llai o swyddogion a chyllideb rhaglenni fyddai rhoi cyfyngiad ar allu'r Comisiynydd i gyfrannu ar ddatblygiadau mewn meysydd polisi pwysig. Ni fyddai modd gwneud gwaith ymchwil ynghylch defnydd o'r Gymraeg; byddai'n anodd ehangu ar y gwaith o roi arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau yng nghylch safonau a rhannu llwyddiannau. Byddai gallu'r Comisiynydd i gwrdd a gwrandao ar brofiadau defnyddwyr yn anoddach ac yn sicr ni fyddai modd gwneud mwy o waith hybu a hwyluso gyda'r sector breifat a'r trydydd sector. Byddai unrhyw ddatblygiadau i waith isadeiledd yn arafu'n sylweddol a gallu'r Comisiynydd i gyfathrebu am ei gwaith yn gyson ac effeithiol yn derbyn ergyd.

3 Amcangyfrif ariannol a sylwadau

3.1 Cyflwynir isod fanylion o wariant Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2019-20 hyd at 2020-21 yn seiliedig ar Gynllun A. Mae'r amcangyfrif hwn yn dangos cynnydd yn y gwariant dros y cyfnod i'w gymharu â 2017-18. Er mwyn ariannu'r gweithgareddau sydd yn hanfodol bwysig i strategaeth, blaenoriaethau a gweithrediad effeithiol y sefydliad gwneir cais am gynnydd o 20% i £3,798,000 ar gyfer 2019-20. Byddai hyn yn caniatáu i'r sefydliad warchod cronfa wrth gefn o £238,000 fel y nodir yn adran 4.2 isod. Pe byddai'r lefel o ariannu yn sefydlog, sef £3,051,000, mae Cynllun A yr amcangyfrif hwn yn golygu byddai diffyg yn y gronfa wrth gefn o dros £1,000,000 erbyn diwedd 2020-21 neu ni fyddai modd cyflawni'r swyddogaethau a phrosiectau'r Comisiynydd (gweler adran 4).

Amcangyfrif ar sail Cynllun A

	Gwariant 2017-18 £000	Cyllideb 2018-19 £000	Rhagolwg 2018-19 £000	Amcangyfrif 2019-20 £000	2020-21 £000
Gwariant					
Cyflogau	2,169	2,231	2,261	2,614	2,672
<i>Costau swyddfeydd</i>	218	241	240	212	247
<i>Technoleg gwybodaeth</i>	157	163	166	165	167
<i>Costau gwasanaethau a gweinyddu</i>	67	64	67	71	70
<i>Recriwtio, dysgu a datblygu</i>	37	27	27	26	26
<i>Costau proffesiynol</i>	220	142	142	134	134
<i>Teithio a chynhaliaeth</i>	84	75	75	83	81
Costau Craidd	783	712	717	691	725
Costau Cyfalaf a Dibrisiant	36	47	47	52	48
Rhaglenni a Phrosiectau	261	141	193	468	140
CYFANSWM GWARIANT	3,249	3,131	3,218	3,825	3,585
Cyllideb gyfredol gan Weinidogion Cymru	(3,051)	(3,051)	(3,051)	(3,051)	(3,051)
Cynnydd i'r gyllideb	-	-	-	(747)	(517)
GORWARIANT YN Y CYFNOD	198	80	167	27	17

3.2 Ystyrir effaith y ffactorau mwyaf dylanwadol ar wariant y Comisiynydd isod:

Cyflogau

- 3.3 Mae'r strwythur presennol wedi bod mewn lle ers Ionawr 2015. Mae'r strwythur hwn yn cynnwys 47 swydd, fel y'u cytunwyd gan Weinidogion Cymru, ac yn strwythur sydd yn addas ar gyfer ymateb i swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 3.4 Mae'r ffactorau canlynol wedi cael, ac yn parhau, i gael effaith sylweddol ar gostau cyflogaeth y sefydliad, nodir y rhain isod:
- Mae'r amcangyfrif wedi cadw cyfraddau cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr ar yr un lefel â 2018-19;
 - Nenfwd Trysorlys EM o 1% y flwyddyn ar godiadau cyflog y sector gyhoeddus;
 - Telir swyddogion y Comisiynydd yn unol ag amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb presennol yn parhau tan 31/03/2019. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi ei dderbyn mewn perthynas â'r setliad wedi'r dyddiad hwn.
 - Mae pwysau cynyddol ar gyflogwyr yn y sector gyhoeddus i gytuno codiadau cyflog uwchben y trothwy o 1% y flwyddyn gan fod y cyfnod o galedi economaidd wedi parhau am gyhyd. Mae hyn yn rhoi lefel uchel o ansicrwydd mewn perthynas â chostau cyflogaeth, sy'n cynrychioli tua 70% o gostau cynhwysfawr y sefydliad.
- 3.5 Nid oes gan y Comisiynydd, fel cyflogwr, ddylanwad dros Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn, serch hyn bydd gwerthusiad y cynllun pensiwn gael effaith ar gyfraniadau'r cyflogwr.
- 3.6 Ar 28/09/2018 daeth gwybodaeth i law mewn llythyr o Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â'r gwerthusiad. Er nad oes disgwyl datganiad swyddogol terfynol nes 2019 mae'r llythyr yn argymhell bod sefydliadau yn cynllunio am gynnydd i gyfraniad y cyflogwr i 28%.
- 3.7 Hefyd mae'r llythyr yn nodi "bydd Trysorlys EM yn cefnogi adrannau gyda chostau anrhagweledig ar gyfer 2019-20".
- 3.8 Mae'r Amcangyfrif hwn wedi ei baratoi ar sail tybiaeth o gynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr. Effaith y cynnydd ar gost cyflogaeth y sefydliad dan gynllun A yw £131,000 ar gyfer 2019-20 gyda'r gost yma'n cynyddu i £135,000 ar gyfer 2020-21. Yn unol â llythyr Trysorlys EM mae'r Comisiynydd yn cynnwys cais am gyllid ychwanegol ar gyfer y cynnydd hwn.
- 3.9 Nodir yn y rhagair nad yw'r lefel cyllido presennol yn caniatáu i'r strwythur presennol gael yr adnoddau llawn dros y tymor canolig. Amlinellir tri chynllun amgen yn adran 2 uchod.

Chwyddiant

- 3.10 Nid oes unrhyw gynnydd am chwyddiant wedi'i gynnwys. Yn eu hadroddiad ar y Rhagolwg Economaidd a Chyllidebol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Gyllidebol yn rhagweld y bydd mesur CPI o chwyddiant yn 1.8% yn 2018, 1.9% yn 2019 a 2.0% yn 2020 (5.8% cronus dros 3 mlynedd). Er ei bod hi'n anochel bydd chwyddiant yn cael effaith ar gostau'r Comisiynydd, bydd angen gwneud arbedion er mwyn rheoli costau o fewn y gyllideb.

Swyddfeydd

- 3.11 Mae'r costau hyn yn cynnwys rhent ac ymrwymadau cytundebol eraill megis costau gwasanaethau landlord a threth annomestig a gwasanaethau cyfleusterau swyddfa. Cymerwyd camau darbodus dros y blynyddoedd diweddar i reoli a lleihau costau swyddfeydd megis adolygu cytundebau, dod â gwasanaethau nad oeddynt yn angenrheidiol i ben ac ennill arbedion drwy fynd allan i dendr.
- 3.12 Mae cynlluniau wedi eu rhoi mewn lle i gael sicrwydd mewn perthynas â gofynion a defnydd swyddfa Caerdydd gyda pherchnogaeth yr adeilad newid ym mis Gorffennaf 2018 a'r les bresennol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2018. Ni fydd perthynas fasnachol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi i'r les bresennol ddod i ben. Bydd y les newydd ar gyfer gofod 40% yn llai na'r les bresennol sydd yn cyd-fynd â gofynion gofod y sefydliad. Mae'r Comisiynydd wedi negodi cyfnod rhydd o rent am 9 mis sydd yn arbed arian yn hanner cyntaf 2019-20. Gwelir costau swyddfeydd yn codi a dychwelyd i lefel arferol yn 2020-21 wedi i'r cyfnod rhydd o rent ddod i ben.

Technoleg Gwybodaeth

- 3.13 Mae'r rhan helaeth, sef £124,000 (75%) o'r gwariant o £165,000 ar Dechnoleg Gwybodaeth, yn ymrwymadau cytundebol ar gyfer cynnal a chadw systemau a meddalwedd a gwasanaethau cefnogi ar gyfer y systemau craidd. Drwy ystyried pa systemau sydd yn angenrheidiol a cheisio arbedion lle bo modd wrth fynd allan i dendr i brofi'r farchnad mae amcangyfrif 2019-20 yn cynnig gwariant sefydlog i'w gymharu â rhagolwg gwariant 2018-19.
- 3.14 Mae costau amrywiol o £21,000 yn sefydlog ac ar gyfer rhedeg gwasanaethau.
- 3.15 Mae gweddill y gwariant o £20,000 yn amcangyfrif 2019-20 ar gyfer datblygiadau i'r amryw systemau TG. Mae'r cynllun buddsoddi TG wedi ei lunio er mwyn sicrhau diweddariadau hanfodol a pharhaus i isadeiledd TG y sefydliad yn cael eu cyflawni'n amserol er mwyn diogelu'r sefydliad yn erbyn unrhyw fygythiadau dwys. Hefyd mae'r gyllideb yn cynnwys arian er mwyn buddsoddi i gadw'r isadeiledd a systemau'r sefydliad yn gyfredol.
- 3.16 Dymuna'r Comisiynydd wneud buddsoddiad sylweddol yn isadeiledd a meddalwedd TG y sefydliad fel rhan o Gynllun A, gweler 2.21 i 2.25 am fanylion.

Gwasanaethau a gweinyddu

- 3.17 Mae'r costau yn cynnwys gwariant ar weinyddu'r sefydliad, megis cyfathrebu a gwasanaethau monitro'r wasg, llungopïo ac argraffu, gwasanaethau cyflogau a phensiwn a chostau post a dosbarthu. Mae'r Comisiynydd yn dilyn arfer da fel y rhai a hyrwyddir gan Gwerth Cymru. Mae'r egwyddor o gael gwerth am arian, ar sail holl gostau gydol oes ac ansawdd o'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd, yn cael ei ddilyn bob amser.

Recriwtio, hyfforddiant a datblygu

- 3.18 Costau recriwtio, aelodaeth sefydliadol a phroffesiynol, seminarau a chynadledau, cyrsiau cymhwyster a hyfforddiant sydd wedi eu cynnwys yn y categori yma. Rhwng y blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2017-18 gwnaethpwyd arbedion sylweddol o £54,000, a chynigir arbediad pellach o £10,000 ar gyfer amcangyfrif 2019-20. Fel y nodir isod nid oes cyfleodd i wneud arbedion pellach.

- 3.19 Cyfyngir gwariant ar gyrsiau cymhwyster ac aelodaeth o gyrff proffesiynol ar gyfer unigolion neu'r sefydliad i amgylchiadau lle bo'r cymhwyster ac/neu'r aelodaeth yn angenrheidiol neu'n hanfodol bwysig ac yn greiddiol i swyddogaethau'r rôl dan sylw.
- 3.20 Gwariant ar hyfforddiant datblygu, seminarau a chynadledau yw'r gweddill. Mae amcangyfrif gwariant 2019-20 yn tybio arbediad o £8,000 (43%) i'w gymharu â 2017-18. Mae'n anorfod defnyddio dulliau rhatach ac arloesol i gyflawni amcanion hyfforddi a datblygu swyddogion o fewn y gyllideb, ond nid oes modd torri ar y gyllideb ymhellach heb gael effaith andwyol ar effeithiolrwydd y swyddogion.

Cyfreithiol a phroffesiynol

- 3.21 Mae'r costau hyn yn cynnwys gwariant ar gyngor cyfreithiol, archwilwyr allanol a mewnlol a gwasanaethau cyfieithu. Rhagwelir arbedion o tua £3,000 i gostau cyfieithu. Wrth brofi'r farchnad a phenodi cyflenwr wedi proses dendro arbedwyd £3,000 ar y gwasanaeth archwilio mewnlol i'w gymharu â 2017-18. Hefyd mae arbediad o tua £15,000 i gostau ymgynghorwyr yn sgil costau untro yn ystod 2017-18.
- 3.22 O ran gwariant ar gyngor cyfreithiol gall natur y gofynion amrywio yn sylweddol ac nid oes modd rhagdybio'n llawn yr amgylchiadau all godi lle bo angen cyngor, yn arbennig lle fo pwerau newydd yn cael eu harfer. Roedd gwir gostau 2017-18 yn uchel i'w gymharu â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd costau yn deillio o lesioedd swyddfa, amddiffyn achosion yn y Tribiwnlys a chael cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd. Mae'r amcangyfrif yn rhagweld bydd costau 2019-20 yn dychwelyd i'r lefelau gwelwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

Treuliau Swyddogion

- 3.23 Swyddogion yw prif adnodd y sefydliad ac felly fe fydd gwariant ar deithio yn parhau i fod yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau bod swyddogaethau craidd y Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae swyddogion a'u rheolwyr llinell yn ymwybodol bod angen iddynt ystyried yr angen i deithio ac i ystyried dulliau amgen o gyfathrebu a chysylltu er mwyn arbed costau ac ystyried yr effaith ar yr amgylchedd.
- 3.24 Oherwydd anghenion teithio'r swyddogion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu gwaith yn effeithiol a thybjaeth bydd anghenion penodol ar ddechrau cyfnod y Comisiynydd newydd ar ddechrau 2019-20; mae amcangyfrif 2019-20 yn rhagweld gwariant sefydlog i'w gymharu â gwir wariant 2017-18. Mae hyn yn gynnydd o £8,000 yn erbyn cyllideb y blynyddoedd blaenorol.

Cyfalaf a dibrisiant

- 3.25 Amcangyfrif y gwariant ar gyfalaf a dibrisiant yw £52,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Mae hyn yn gynnydd i'w gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r cynnydd oherwydd dibrisiant yn deillio o fuddsoddiad mewn asedau ar ddiwedd 2017-18 a'r cynlluniau buddsoddi yn ystod 2018-19.
- 3.26 Mae hyn ar gyfer parhau i fuddsoddi lle bo'n angenrheidiol ar dechnoleg gwybodaeth drwy uwchraddio offer TG a gwneud newidiadau i'r swyddfeydd er mwyn darparu amgylchedd ac adnoddau addas ar gyfer swyddogion y Comisiynydd.

Incwm

- 3.27 Mae'r Comisiynydd yn derbyn incwm drwy is-osod y trydydd llawr y swyddfa dan brydles yn Siambrau'r Farchnad, Caerdydd. Ar 28/09/2016 llofnodwyd les gan Gomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru ar drydydd llawr swyddfa Caerdydd.
- 3.28 Derbyniwyd incwm o £62,500 ar gyfer 2017-18 a rhagolwg o £47,000 wedi ei osod yn erbyn costau swyddfeydd ar gyfer 2018-19. Daw cyfnod yr is-les i ben ym mis Rhagfyr 2018 pan ddaw'r ffynhonnell incwm i ben.
- 3.29 Nid oes disgwyl i'r Comisiynydd dderbyn incwm o unrhyw ffynhonnell arall heblaw gan Weinidogion Cymru.
- 3.30 Derbynnir ychydig o log banc ar yr arian a dderbynnir gan Weinidogion Cymru, wrth ei fuddsoddi mewn cyfrifon cadw.

Rhaglenni a Phrosiectau

- 3.31 Mae'r opsiynau sydd yn cael eu cynnig gan y Comisiynydd yn argymhell gwahanol lefelau o gyllido fel a ganlyn:
- | | |
|-------------|----------|
| ○ Cynllun A | £468,000 |
| ○ Cynllun B | £468,000 |
| ○ Cynllun C | £140,000 |
- 3.32 Mae manylion y prosiectau sydd yn cael eu cynnig dan yr opsiynau hyn wedi eu manylu yn adran 2 y ddogfen

4 Effaith ar y gronfa wrth gefn

- 4.1 Mae cyfrifon blynyddol 2017-18 yn datgan bod £501,000 yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31/03/2018. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys symiau sy'n dderbynadwy, yn ddyledus, rhagdaliadau a chroniadau. Er mwyn deall gwir werth y gronfa wrth gefn mae angen ystyried effaith y trafodion hyn:

	£000	Casglu dyledion a thalu credydwy £000	Dibrisiant a gwariant rhagdaliadau £000	Balans yn weddill £000
Asedau sefydlog	84		(84)	-
Symiau derbynadwy	19	(19)		-
Rhagdaliadau	63		(63)	-
Arian parod	858	(484)		374
Taliadau Masnachol	(125)	125		-
Incwm Gohiriedig	(20)		20	-
Croniadau a darpariaethau	(378)	378		-
Cronfa wrth gefn	501	0	(127)	374

- 4.2 Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2018-19 gwir werth y gronfa wrth gefn oedd £374,000. Mae'r tabl isod yn amcangyfrif yr effaith ar y gronfa wrth gefn o'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd 2018-19 hyd at 2020-21 yn unol â Chynllun A.

	2018-19 £000	2019-20 £000	2020-21 £000
Ar ddechrau'r cyfnod	374	238	238
Tanwariant / (Gorwariant) yn y cyfnod	(167)	(27)	(17)
Dibrisiant asedau sefydlog 31/03/2017	31	27	17
Ar ddiwedd y cyfnod	238	238	238
Cronfa wrth gefn heb gynnydd i'r gyllideb (diffyg wedi ei ddangos mewn cromfachau)			
Cynllun A	238	(509)	(1,026)
Cynllun B	238	(252)	(777)
Cynllun C	238	76	(174)

- 4.3 Ystyrir bod angen cadw lleiafswm o 5% o'r gyllideb flynyddol wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant ni ellid ei ragweld, tua £150,000. Rydym nawr mewn cyfnod lle mae Tribiwnlys y Gymraeg yn weithredol, ac ystyrir y byddai'n ddarbodus cadw £100,000 wrth gefn ar gyfer unrhyw achos cyfreithiol allai godi.
- 4.4 Tra byddai'n ddymunol cadw cronfa wrth gefn o tua £250,000, heb gynnydd i'r gyllideb mae gorwariant dros y blynyddoedd 2017-20 ac effaith gwerthusiad y cynllun pensiwn yn golygu bod Cynlluniau A, B ac C yn arwain at ddiffyg yn y gronfa wrth gefn dros y tymor canolig. Ni fyddai'n ddarbodus nac yn gyfreithiol i Swyddog Cyfrifyddu gynllunio, cymeradwyo na chaniatáu i sefyllfa godi lle byddai diffyg yn y gronfa wrth gefn allai beryglu gallu'r sefydliad i barhau i weithredu.

5 Gweithredu cadarn a phriodol

- 5.1 Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg; fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb personol am weinyddu, rheoli a staffio'r sefydliad yn gyffredinol. Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu fframwaith a strwythurau llywodraethu a rheoli ers i'r sefydliad ddod i fodolaeth ac mae'r rhain wedi esblygu a datblygu dros y chwe blynedd a hanner hynny. Mae'r fframwaith a'r strwythurau hyn yn cynnwys:
- Tîm Rheoli sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd;
 - Panel Cynghori;
 - Pwyllgor Archwilio a Risg;
 - Uwch Swyddogion yn arwain ar reolaeth a gweinyddiaeth y sefydliad;
 - Polisiâu a gweithdrefnau yn gosod canllawiau a systemau rheolaeth;
 - Archwilwyr mewnol ac allanol i roi sicrwydd annibynnol.
- 5.2 Mae'r Comisiynydd wedi derbyn tystiolaeth a sicrwydd cadarn ac annibynnol dros nifer o flynyddoedd bod y fframwaith a'r strwythurau hyn yn cael eu gweithredu yn gyson ac yn briodol.
- 5.3 Cynhelir archwiliad allanol blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru a derbyniwyd barn ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y chwe blynedd ers sefydlu Comisiynydd y Gymraeg.
- 5.4 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi codi unrhyw fater o bwys yn ei adroddiadau o ran cywirdeb yr Adroddiad Blynyddol nac unrhyw argymhellion o ran prosesau a rheolaeth y sefydliad yn y tair blynedd diwethaf.
- 5.5 Caiff cynllun archwilio mewnol ei ddatblygu a'i gytuno yn flynyddol rhwng y Comisiynydd a'r Archwilydd Mewnol a chaiff y cynllun hwn ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- 5.6 Dros y blynyddoedd diwethaf derbyniwyd adroddiadau roedd yn rhoi sicrwydd yr Archwilydd Mewnol mewn meysydd gweinyddol a gweithredol, bod fframwaith llywodraethiant a phrosesau rheolaeth fewnol y sefydliad yn gweithredu'n briodol.
- 5.7 Cynhelir cyfarfodydd â rhanddeiliaid, partneriaid a chyfoedion ar draws meysydd eang, gan gynnwys rhwydweithiau sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, er mwyn rhannu profiadau, syniadau, gwybodaeth ac arfer da. Hefyd mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi fforwm i gydweithio ac i osgoi neu leihau dyblygu gwaith.
- 5.8 Yn benodol, fel yn y blynyddoedd blaenorol, cafwyd cyfarfodydd gyda Chomisiynydd Plant Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fesul un ac fel grŵp. Prif bynciau trafod y cyfarfodydd oedd sicrhau cydlynid strategol ein gweithgareddau a defnydd priodol o adnoddau.